
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Pen Dinas, Sir Benfro

## Taith gerdded gylchol â digon o fywyd gwyllt, felly dewch â'ch binocwlars.

*"Dyma daith gerdded gylchol hynod ddiddorol â golygfeydd gwych o glogwyni uchel Pen Dinas a digon o fywyd gwyllt i'w weld ar hyd y ffordd."*

**THERESA NOLAN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Pwllgwaelod, rhyw gilometr oddi ar yr A487 ger Dinas.

### Pellter:

8 milltir/13km.

### Ar hyd y ffordd...

Aiff y daith gylchol hon â chi o gwmpas clogwyni uchel Pen Dinas. Mae graddiannau serth i'r llwybr a byddwch chi'n cerdded ar ymyl clogwyni, felly rhaid goruchwylio cerddwyr ifanc.

Caiff Pen Dinas weithiau ei alw'n Ynys Dinas, ond pentir a ffurfiwyd ar ddiwedd yr Oes Iâ olaf ydyw, sydd wedi ei wahanu ychydig oddi wrth y tir mawr. Wrth i chi ddringo'r llwybr serth i'r pentir, wedi eich amgylchynu gan ddŵr ar dair ochr, byddwch chi bendant yn teimlo fel eich bod chi ar y môr.

Mae Dinas yn enwog am ei fywyd gwyllt helaeth, felly dewch â'ch binocwlars. Yn y gaeaf, cadwch lygad am gigfrain, brain coesgoch a phenwaig, gwylanod cefnddu mawr a bach, ac yn yr haf gwelir gweilch y penwaig yn bridio, gwylogod, adar drycin y graig a mulfrain yn nythu ar y clogwyni.

Un o'r lleoedd gorau i'w gweld yw Needle Rock ar ochr ddwyreiniol Pen Dinas, ble mae hefyd olygfeydd godidog ar draws y dŵr i Draeth Trefdraeth a thua'r tir tuag at Fynyddoedd y Preseli.

Wrth i chi gerdded, cewch weld blodau gwyllt arfordirol, lliwgar fel tamaid y cythraul, teim, grug, clustog Fair, dail-ceiniog, bysedd y cŵn a thegeirianau, gyda chlychau'r gog yn blaguro'n hwyr yn y gwanwyn ar lethrau dwyreiniol y pentir.

Aiff Llwybr Arfordir Cymru â chi o gwmpas i bentrefan hyfryd Cwm-yr-Eglwys, ble gwelwch chi adfeilion yr eglwys leol a ddinistriwyd gan storm fawr 1859. O Gwm-yr-Eglwys, dilynwch y llwybr troed ar hyd crib y pentir er mwyn dychwelyd i Bwllgwaelod.

### Angen gwybod:

Mae toiledau, maes parcio bychan a thafarn ym Mhwllgwaelod a thŷ bach yng Nghwm-yr-Eglwys.

Os hoffech chi ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gallwch chi ddefnyddio gwasanaeth bws arfordirol tymhorol y Poppit Rocket. Ewch i wefan Sir Benfro am lwybrau ac amserlenni bws ac amserlenni: www.pembrokeshire.gov.uk/bus-routes-and-timetables.